**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad Gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Ddarlun o Wasanaethau Cyhoeddus**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r un ar ddeg o argymhellion a geir ynddo.

**Argymhelliad 1:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fonitro a chyhoeddi'r cynnydd y mae'n ei wneud o ran gwella rheoli ariannol ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn golygu y caiff arfer da mewn rheoli ariannol ei rannu ar draws y sector cyhoeddus.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Mae **Is-adran Arwain Cyllid** Llywodraeth Cymru wedi cael ei sefydlu mewn partneriaeth â Sector Cyhoeddus Cymru. Nodau'r Is-adran yw gwella sgiliau arwain rheoli ariannol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ac adeiladu cymuned cyllid sector cyhoeddus o'r ansawdd gorau, a fydd yn cyfrannu at weddnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda'r cyrff cyfrifyddiaeth yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Is-adran Arwain Cyllid yn

- datblygu a darparu **Rhaglen Arweiniad Ariannol** arbenigol ac arloesol i uwch arweinwyr ariannol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn y Rhaglen hon, caiff arfer da ym maes arweiniad ariannol ei addysgu, ac mae cymorth ar gael i wreiddio'r dysgu yn y gweithle;
- gwella rhwydweithio yng nghymuned gyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru trwy Gynadleddau Cenedlaethol a Chyfarfodydd Rhanbarthol dwywaith y flwyddyn yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau eraill sy'n cefnogi blaenoriaethau aelodau'r rhwydwaith e.e. cynorthwyo â gweithgareddau cynaliadwyedd a meincnodi sy'n berthnasol i'r gymuned uwch arweinwyr ariannol yng Nghymru; ac
- ymchwilio i gyfleoedd, a'u darparu, ar gyfer gweithio cydweithredol yn y gymuned hon i sicrhau gwell gwerth am arian a rhannu arfer gorau ym maes rheoli ariannol.

Fel rhan o amodau cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mae'n ofynnol i'r Is-adran Arwain Cyllid fonitro effeithiolrwydd ei holl weithgareddau'n drylwyr. Caiff hyn ei adolygu bob chwarter gan WEFO a'i gofnodi trwy WEFO Ar-lein. Mae'r targedau cyflawnadwy allweddol a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn achos pob gweithgaredd ar gael ar wefan y Rhwydwaith Arweiniad Ariannol sy'n adnodd diogel y gall holl aelodau'r Rhwydwaith ei gyrchu.

**Argymhelliad 2:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pellach i annog awdurdodau lleol i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi gweddnewid,*

*tra'n cynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn er mwyn rheoli risgiau a gofynion yn y dyfodol.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol reoli eu hadnoddau yn unol â gofynion statudol a chanllawiau ac maent yn atebol am y penderfyniadau a wnânt ynghylch y defnydd o'u hadnoddau, yn arbennig eu cronfeydd wrth gefn, gan gymryd amgylchiadau a blaenoriaethau lleol i ystyriaeth. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru'n mynd ati i annog a chynorthwyo awdurdodau i fuddsoddi mewn gweithgarwch gweddnewid i wella gwasanaethau neu werth am arian o'r holl ffynonellau cyllid sydd ar gael, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn.

**Argymhelliad 3:**
*Rydym yn argymell, yn unol â barn Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fod Llywodraeth Cymru yn dwyn uwch reolwyr byrddau iechyd lleol i gyfrif am eu cyfrifoldebau rheoli ariannol statudol ym mlwyddyn ariannol 2011-2012. Mewn blynyddoedd dilynol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gosod fframwaith atebolrwydd ariannol i fyrddau iechyd lleol er mwyn hyrwyddo cynllunio ariannol a darparu gwasanaethau'n effeithiol yn unol â chyfrifoldebau statudol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am gymelliadau a chosbau i uwch reolwyr fel bo'n briodol.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Fyrddau Iechyd Lleol ym mis Mawrth i atgyfnerthu ei neges y byddai uwch reolwyr yn cael eu dal i gyfrif pe baent yn methu â chyrraedd eu targedau ariannol statudol. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gyflwyno trefn ariannol newydd i'r GIG a fydd yn nodi'n glir ac yn cryfhau trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol. Bydd y gwaith hefyd yn canolbwyntio ar gynllunio gwell yn y tymor canolig a'r tymor hwy gan integreiddio'r elfennau o ran cyllid, y gweithlu a gwasanaethau yn well.

Amseru: Bydd y gwaith o ddatblygu'r drefn newydd wedi'i gwblhau erbyn mis Tachwedd 2012 a chaiff y drefn ei chyflwyno fesul cam ar ôl hynny, gan ddibynnu ar natur y newidiadau sydd i gael eu gweithredu.

**Argymhelliad 4:**
*Rydym yn argymell bod byrddau iechyd lleol yn cael eu galluogi i wneud defnydd mwy effeithiol o gyllid o'r naill flwyddyn ariannol i'r llall yn yr un modd ag awdurdodau lleol. Byddai hyn yn galluogi gwell cynllunio ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hwy.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Fel rhan o'r gwaith ar gyflwyno trefn ariannol newydd mae gweithgor penodol i gael ei sefydlu a fydd yn canolbwyntio ar sut y gallwn weithredu rhagor o hyblygrwydd ariannol yn y GIG.

Amseru: Disgwylir i'r grŵp roi ei argymhellion ym mis Tachwedd 2012.

**Argymhelliad 5:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyrff unigol y GIG yn cyhoeddi'r cynlluniau ar gyfer gweddnewid gwasanaethau a'r dadansoddiad sy'n sail i'r cynlluniau hynny, gan gynnwys yr effaith bosibl ar gleifion a'r gymuned ehangach.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi canllawiau yn nodi'r ffordd y disgwyliwn i sefydliadau'r GIG ymgysylltu ac ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer gweddnewid gwasanaethau. Yn y canllawiau dywedir:

"Wrth reoli newidiadau i wasanaethau, dylai corff GIG: nodi sail resymegol glir ar gyfer newid, wedi'i chefnogi gan achos clinigol sy'n dangos buddion newid a risgiau aros yr un peth."

Mae Cyfarwyddwr Cenedlaethol Law yn Llaw at Iechyd yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Cenedlaethol y Cynghorau Iechyd Cymuned a Chyfarwyddwyr Llywodraethu Byrddau Iechyd i sicrhau bod yr holl brosesau'n gyson â'r canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Fforwm Clinigol Cenedlaethol yn rhoi sicrwydd bod y cynlluniau'n darparu sail ar gyfer cyflenwi gwasanaethau mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy ac yn cyfuno i greu ffordd realistig ac uchelgeisiol ymlaen ym maes gofal iechyd yng Nghymru.

Byrddau Iechyd unigol fydd yn gyfrifol am weithredu cynlluniau lleol yn dilyn ymgysylltu helaeth yn lleol ac ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo trwy brosesau llywodraethu priodol y Byrddau. Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro'r cynnydd yn fanwl trwy'r trefniadau rheoli perfformiad sy'n bodoli eisoes yn ganolog.

Bydd gan Gynghorau Iechyd Cymuned ran hanfodol i'w chwarae wrth graffu ar y gwaith o weithredu'r cynlluniau'n lleol a chynorthwyo â'r gwaith hwnnw.

**Argymhelliad 6:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dulliau presennol o rannu arfer da, fel hyrwyddo'r defnydd o Gyfnewid Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn dwyn at ei gilydd mewn ffordd systematig nodweddion arfer da o bob rhan o'r sector cyhoeddus, a sicrhau y gellir trosglwyddo arfer o'r fath yn lleol.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Trwy waith Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a gwaith ehangach gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus - yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol - byddwn yn parhau i gynorthwyo â lledaenu a mabwysiadu arfer da. Rydym yn croesawu'r cydweithio agos hyd yma gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ystyried hyn yn nodwedd barhaus hanfodol o'n dull arweiniad ar

y cyd o ganfod a rhannu arfer gorau – trwy gyfryngau megis y Gyfnewidfa Arfer Da – yn ogystal â diwygio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach.

**Argymhelliad 7:**
*Rydym yn argymell bod y Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yn adnabod yr enghreifftiau o arfer da y mae'r heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub wedi eu gweithredu i ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb, ac yn dysgu oddi wrthynt a'u hyrwyddo, a'i fod yn gwneud defnydd da o gydweithio a chyflawni gweddnewid.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Mae'r Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cymryd rhan gref yn y rhaglenni gwaith cenedlaethol a rhwydweithiau arwain rhanbarthol Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae hyn yn hanfodol er mwyn hybu dysgu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ond hefyd er mwyn ail-greu ac integreiddio gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl yn well.

Fel rhan o'r rhaglen Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed mae Heddlu Gwent wedi hyrwyddo prosiect amlasiantaethol i sefydlu ffordd well o ymateb i blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro. Os bydd peilot cynllun diogelu amlasiantaethol (the "HUB") yng Ngwent yn llwyddiannus, gallai'r dull newydd gael ei ddefnyddio mewn rhannau eraill o Gymru ac mewn meysydd eraill o Ddiogelu a Diogelu'r Cyhoedd.

Mae'r heddlu hefyd yn defnyddio eu profiadau i chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cynllunio at argyfwng ar batrwm rhanbarthol, a datblygu dull amlasiantaethol o'u darparu, ar draws Cymru. Mae'r buddion a'r arbedion effeithlonrwydd sydd wedi cael eu gwireddu gan Heddlu De Cymru trwy ddefnyddio meddylfryd darbodus / trwy systemau yn enghraifft benodol y gall ac y dylai eraill ar draws gwasanaethau cyhoeddus ddysgu ohoni. I'r perwyl hwn, rhannodd Heddlu De Cymru y profiadau hyn mewn digwyddiad rhwydwaith 'Ymarferwyr Dulliau Darbodus' i'r gwasanaethau cyhoeddus i gyd a gynhaliwyd yn ddiweddar ac a drefnwyd fel rhan o'r gwaith o dan raglen waith Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson.

**Argymhelliad 8:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo model lleihau costau Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith yr holl wasanaethau cyhoeddus i'w helpu i leddfu effeithiau'r toriadau ac i gydweithio i ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Mae model lleihau costau Swyddfa Archwilio Cymru yn ddull strwythuredig, ymarferol a hygyrch y gall y gymuned gwasanaethau cyhoeddus gael budd ohono. Mae'n cael ei ategu gan ddatblygiadau polisi fel creu Cynlluniau Integredig Sengl gan bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol – sy'n helpu i ddatblygu

cronfa tystiolaeth a set o flaenoriaethau a rennir i bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus yn lleol – yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol eraill fel “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru”. Byddwn yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i barhau i hyrwyddo a chynorthwyo â mabwysiadau dulliau o’r fath. Mae dolen i Ganllaw Swyddfa Archwilio Cymru i Leihau Costau, a geir ar ei Chyfnewidfa Arfer Da, yn cael ei rhoi ar safle rhyngrwyd y Rhwydwaith Arweiniad Ariannol.

**Argymhelliad 9:**
*Rydym yn argymell bod y Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus yn adeiladu ar y cynnydd a wnaeth y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi drwy sicrhau bod yr arfer da a nodwyd drwy’r meddylfryd darbodus/trwy systemau a dull Kafka Brigade yn cael ei hyrwyddo’n frwd ar draws y sector cyhoeddus.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Mae rhaglen waith Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed, yn datblygu ac yn hybu mabwysiadu nifer o ddulliau newydd o ddarparu gwasanaethau mwy integredig ac ataliol i’n pobl fwyaf agored i niwed. Un enghraifft benodol yw datblygu arfer gorau i’r holl staff rheng flaen sy’n dod i gysylltiad â dioddefwyr posibl cam-drin domestig. Mae hyn yn adeiladu ar y dysgu o’r prosiectau o dan arweiniad y Kafka Brigade yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chasnewydd, yr oedd pob un ohonynt yn edrych ar y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio o bersbectif rhywun sy’n dioddef o gam-drin domestig, ac mae’n rhan allweddol o ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu ‘10,000 o Fywydau Diogelach’.

Mae rhaglen waith Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson yn parhau â gwaith gweddnewid gweithredol y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi. Yn ogystal ag edrych ar gydwasanaethau a gweithio hyblyg mae’r rhaglen waith yn hyrwyddo defnyddio meddylfryd darbodus / trwy systemau. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo â datblygu rhwydwaith ymarferwyr meddylfryd darbodus / trwy systemau i adeiladu cronfa sgiliau a hybu ei ddefnyddio’n eang.

**Argymhelliad 10:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro’n drylwyr perfformiad ei model ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Rydym yn credu bod yn rhaid i unrhyw fodel sicrhau bod cynghorwyr a dinasyddion yn ganolog i drafodaethau ar y ffordd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu a bod yna lywodraethu ac atebolrwydd priodol.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Mae mwy o gydweithio rhanbarthol yn rhan allweddol o agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus, maes lle mae Llywodraeth Cymru wedi dangos arweiniad trwy osod y patrwm cydweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae’r Compact ar gyfer Newid – a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

ac y cytunodd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol arno yn y Cyngor Partneriaeth ym mis Rhagfyr 2011 – yn cydnabod yn llawn y rôl hollbwysig y mae cynghorwyr lleol yn ei chwarae. Mae'n gwneud y glir:

> "Er mwyn cynnal gwasanaethau, bydd angen i gynghorwyr annog a chefnogi trefniadau cydweithredol pan fyddant yn lleihau costau a / neu wella gwasanaethau. Mae trefniadau rheoli perfformiad a llywodraethu tryloyw, sy'n caniatáu i gynghorwyr graffu'n barhaus ar wasanaethau, yn rhagofynion ar gyfer cydweithredu effeithiol."

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod modelau llywodraethu priodol yn cael eu creu i gefnogi cydweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau ar gydbwyllgorau trosolwg a chraffu o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sydd i gael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori arnynt cyn bo hir. Caiff tystiolaeth o fuddion cydweithredu rhanbarthol ei dangos yn yr achosion busnes dros gydweithrediadau cytunedig, a'i hadlewyrchu yn y fframwaith mesur a ddatblygir i gefnogi gwaith Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus.

**Argymhelliad 11:**
*Rydym yn argymell bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhoi i ni ddiweddariad cyn pen 12 mis ynghylch y cynnydd o ran cyflawni argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a'n hargymhellion ni.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Caiff adroddiad ar y cynnydd wrth gyflawni holl argymhellion y pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Mehefin 2013.